# Gofynion storio silwair a slyri

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Mae **gofynion cyfreithiol ar gyfer dylunio (capasiti), adeiladu a chynnal a chadw** cyfleusterau storio silwair a slyri.

Mae elifiant silwair a slyri wedi bod yn ffynhonnell llygredd difrifol, yn aml o ganlyniad i ddiffyg capasiti storio neu adeiladwaith o ansawdd isel. Mae storfa ddigonol ar gyfer elifiant silwair a slyri neu dail yn hanfodol er mwyn atal yr angen i wasgaru tu allan i'r tymor tyfu neu yn ystod cyfnodau o dywydd neu amodau pridd anaddas.

**Mae'n bwysig eich bod yn derbyn cyngor proffesiynol ar gyfer dyluniad ac adeiladwaith.** Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig gwasanaeth cynghori a allai arbed amser ac arian sylweddol i chi a diogelu eich gofynion storio at y dyfodol. Trwy wneud gwelliannau i ardaloedd buarth a rheolaeth dŵr, gallai fod yn bosibl i chi leihau eich gofynion storio yn sylweddol, gan leihau eich costau rheoli slyri ac amser.

Gall cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl yn ystod y cyfnod cynllunio hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a lleihau risgiau llygredd yn y modd mwyaf cost effeithiol posibl.

**Mae'n rhaid i chi hysbysu CNC yn ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio system newydd, sydd wedi'i ehangu'n sylweddol neu wedi cael ei ail-adeiladu'n sylweddol. Mae gan CNC ffurflenni ar gael i'ch cynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.**

## Beth yw'r safonau ar gyfer slyri a silwair y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw?

**Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gofalu neu'n rheoli silwair neu slyri ei storio mewn system sy'n bodloni'r safonau a nodir isod yn unig.** Mae'n bosibl y bydd eithriadau'n berthnasol i safonau adeiladu storfeydd a adeiladwyd cyn neu ar ôl 1991, heblaw eu bod wedi cael eu hail-adeiladu neu eu hymestyn yn sylweddol.


## SILWAIR

Mewn byrnau ac ar y cae:

- Rhaid peidio â storio silwair wedi ei roi mewn byrnau a'i lapio neu ei roi mewn bagiau o fewn 10 metr i gwrs dŵr.
- **Os ydych yn defnyddio safleoedd ar gaeau i wneud neu storio silwair, neu silwair heb ei roi mewn byrnau mewn bagiau mawr**, Ag bags' er enghraifft, **rhaid i chi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle am y tro cyntaf.**


Clampiau silwair:

1. Rhaid i waelod y clamp, y tanc elifiant a'r draeniau i gyd fod yn anhydraidd ac yn gallu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair. Rhaid i waelod y clamp gael ei ddylunio a'i adeiladu yn unol â BS8007 neu BS5502 Rhan 21.
2. Pan ddefnyddir waliau, rhaid i'r gwaelod ymestyn tu hwnt i'r waliau. Rhaid i bob clamp silwair gynnwys sianel ddraenio o'i amgylch yn cysylltu â thanc elifiant.
3. Rhaid i'r holl elifiant gael ei gasglu a'i gynnwys. Rhaid i gyfaint y tanc elifiant fod yn 20 litr/metr ciwbig o gyfaint y silo – hyd at 1500 metr ciwbig, a 6.7 litr i bob metr ciwbig o gyfaint silo ychwanegol wedyn.
4. Ni ddylai unrhyw ran o'r safle fod o fewn 10 metr i gyrsiau dŵr na draeniau daear.
5. Rhaid i glampiau a draeniau fedru parhau am 20 mlynedd (wrth gael eu cynnal a'u cadw yn arferol).
6. Rhaid i danciau elifiant tanddaearol fedru parhau am 20 mlynedd heb eu cynnal a'u cadw. Rhaid anfon tystysgrif i gadarnhau bod dyluniad ac adeiladwaith y tanc a'r clamp yn addas i Gyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn eu defnyddio.
7. Os oes waliau ar y clamp, rhaid iddynt gael eu dylunio yn ôl BS5502 Rhan 22 a gallu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.



## SLYRI

- Diffinnir slyri yn y rheoliadau SSAFO fel deunydd hylifol neu rannol hylifol sy'n cynnwys ysgarthion a gynhyrchwyd gan dda byw tra mewn iard neu adeilad.
- Mae'r diffiniad o slyri yn cynnwys golchion parlwr ac iard, ac unrhyw ddŵr glaw sydd wedi ei lygru.
- Gall gwahanu dŵr glaw glân o doeau ac iardiau leihau faint o gyfaint o storfa slyri sy'n ofynnol.
- Ni ddylai unrhyw ran o'r system fod o fewn 10 metr i gwrs dŵr, lle gall slyri fynd i mewn oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno, yn ysgrifenedig, ar y lleoliad a chamau ychwanegol i osgoi llygredd.



## Gofynion cyfleusterau storio slyri:

1. Rhaid i storfeydd slyri, tanciau, pibellau a sianeli fod yn anhydraidd. Pan na fydd waliau'r storfa slyri yn anhydraidd (ee storfeydd waliau sy'n gollwng), rhaid i'r gwaelod ymestyn tu hwnt i'r waliau â bod â draeniau o amgylch y perimedr sy'n cysylltu â thanc slyri.
2. Rhaid i waelod a waliau unrhyw danc storio slyri, unrhyw danc elifiant, sianeli a phwll derbyn, a waliau unrhyw bibellau, gael eu diogelu rhag cyrydu, fel y disgrifir yn BS 5502, Rhan 50 (1993).
3. Rhaid i'r tanc storio slyri a'r pwll derbyn gael eu dylunio yn ôl BS 5502, Rhan 50 (1993).
4. Fel arfer rhaid i'r pwll derbyn a'r sianeli cysylltiedig ddal o leiaf deuddydd o gynnyrch slyri, gan gynnwys unrhyw ddŵr glaw tebygol.
5. **Rhaid i danc slyri ddal o leiaf bedwar mis o gynhyrchiant fel arfer, gan gynnwys lwfans ar gyfer y dŵr glaw tebygol.**
6. **Mewn Parthau Perygl Nitradau (NVZ), bydd arnoch angen dal pump neu chwe mis o gynhyrchiant gan ddibynnu ar y math o slyri a gynhyrchir.**
7. Rhaid i'r tanc stori slyri gael ei ddylunio i gael lleiafswm o 300mm yn rhydd ond rhaid i storfeydd gydag ymylon pridd fod ag o leiaf 750mm o le gwag bob amser.
8. Rhaid i bob rhan o'r system storio slyri gael eu dylunio i barhau am 20 mlynedd gyda **chynnal a chadw** arferol.
9. Rhaid i unrhyw bibell ddraenio sefydlog o'r storfa slyri fod a 2 falf mewn rhes. Rhaid iddynt gael eu cloi ar gau pan na fyddant yn cael eu defnyddio ac i storfeydd a adeiladwyd ers 2010 rhaid cael o leiaf 1 metr o le rhwng y falfiau.

**Gwnewch yn siŵr mai dim ond contractwyr neu adeiladwyr sy'n deall ac yn adeiladu yn unol â rheoliadau SSAFO y byddwch yn eu defnyddio.**

Ceir arweiniad cyffredinol ynglŷn â dewis, nodweddion penodol y deunyddiau a seilwaith, gweler adroddiad Ciria ar Seilwaith storio tail da byw a silwair i amaethyddiaeth.

*https://www.ciria.org/resources/free_publications/farms.aspx*

**Os bydd unrhyw system wneud silwair neu storio slyri yn creu risg sylweddol o lygredd i ddyfroedd wyneb neu ddaear, yna gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi wneud gwelliannau.**

## Cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar:

**Ebost:**
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

**Ffôn:**
0300 065 3000

**neu trwy'r post:**
Cyfoeth Naturiol Cymru,
d/o Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid,
Tŷ Cambria,
29 Heol Casnewydd,
Caerdydd,
CF24 0TP